Cyllid & Thollau EM

Nodiadau Partneriaeth (byr)

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Pwy ddylai gwblhau'r tudalennau *Partneriaeth (byr)*?

Os oedd hawl gennych i gyfran o'r elw, colled neu incwm o fusnes yr oeddech yn ei gynnal mewn partneriaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth 2008-09, rhaid i chi gwblhau naill ai'r tudalennau *Partneriaeth (byr)* neu *(llawn)*.

Rydych hefyd yn gyd gyfrifol ynghyd â'ch partneriaid am gwblhau'r Ffurflen Dreth Partneriaeth ar gyfer 2008-09. Os na chaiff y Ffurflen Dreth honno ei dychwelyd mewn da bryd, gellir codi cosb awtomatig o £100 ar bob partner a oedd yn aelod o'r bartneriaeth yn ystod cyfnod y Ffurflen Dreth.

Datganiad y Bartneriaeth

Mae Ffurflen Dreth y Bartneriaeth yn cynnwys crynodeb o gyfran yr elw, colledion neu incwm a ddyrannwyd i chi yn ystod unrhyw gyfnod pan oeddech yn aelod o'r bartneriaeth. Gelwir y crynodeb hwn yn 'Datganiad y Bartneriaeth' a dylech ddefnyddio'r wybodaeth yn y Datganiad hwnnw i gwblhau eich tudalennau *Partneriaeth*.

Ceir dau fath o Ddatganiad:

- un 'byr' neu wedi ei dalfyrru, sef fersiwn ar gyfer partneriaethau gydag incwm masnachu a llog wedi ei drethu o fanc neu gymdeithas adeiladu (neu dderbyniadau ariannu amgen), ac
- un 'llawn', cyflawn, sef fersiwn sy'n cynnwys yr holl fathau o incwm partneriaeth sy'n bosibl eu cael.

Cwblhau'r tudalennau *Partneriaeth (byr)*

Bydd y rhan fwyaf o bartneriaethau yn gorfod cwblhau'r Datganiad Partneriaeth byr yn unig. Os ydy'ch partneriaeth wedi cwblhau hwn, cwblhewch y tudalennau Partneriaeth (byr). Fodd bynnag, os ydy'ch partneriaeth yn cwblhau'r Datganiad Partneriaeth llawn, dylech gwblhau'r tudalennau *Partneriaeth (llawn)*, sydd ar gael drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**.

Os oeddech yn aelod o fwy nag un bartneriaeth, neu os oedd y bartneriaeth yn cynnal mwy nag un busnes, bydd angen Datganiadau Partneriaeth ar wahân:

- ar gyfer pob partneriaeth yr oeddech yn aelod ohoni, ac
- ar gyfer pob busnes os oedd y bartneriaeth yn cynnal fwy nag un busnes.

Yn yr amgylchiadau hyn rhaid i chi gwblhau cyfres o'r tudalennau *Partneriaeth* perthnasol ar gyfer pob partneriaeth a/neu fusnes. Dylech naill ai lungopïo tudalennau gwag sydd gennych eisoes neu ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg am ragor o gopïau. Os defnyddiwch lungopïau, rhowch eich enw a'ch rhif trethdalwr unigryw ar y brig. Dylech ofyn i'r Llinell Gyswllt Gymraeg hefyd am Daflen Gymorth 220 *More than one business*.

Peidiwch â rhoi manylion eich cyfran chi o dderbyniadau a gafwyd trwy waredu asedion trethadwy'r bartneriaeth (er enghraifft, cyfranddaliadau neu eiddo) ar y tudalennau hyn. Defnyddiwch dudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf* yn lle hynny, oni bai:

- nad yw cyfanswm gwerth yr asedion a waredwyd yn 2008-09 (drwy'r bartneriaeth neu fel arall) yn fwy na £38,400, ac
- nad yw cyfanswm eich enillion trethadwy yn fwy na £9,600 (ni fydd treth yn ddyledus).

Gweler tudalen TRG 5 eich canllaw i'r Ffurflen Dreth am fwy o wybodaeth.

Fel arfer bydd angen i chi gwblhau'r tudalennau *Partneriaeth* os oeddech yn bartner yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 a'r tudalennau *Hunangyflogaeth* os oeddech yn hunangyflogedig hefyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan wnaethoch

gynnal yr un busnes yn ystod y flwyddyn, ac roeddech yn hunangyflogedig am ran o'r flwyddyn ac mewn partneriaeth am ran ohoni, dilynwch yr arweiniad yn yr adran 'Newid rhwng hunangyflogaeth a phartneriaeth' ar dudalennau SPN 7 a SPN 8.

Manylion y bartneriaeth

Blychau 1 a 2

Dylech sicrhau eich bod yn cwblhau blychau 1 a 2 ar gyfer pob cyfres o dudalennau a gwblhewch. Nodwch gyfeirnod treth y bartneriaeth ym mlwch 1 y Ffurflen Dreth Partneriaeth. Os ydych yn bartner mewn partneriaeth dramor, ni fydd gennych gyfeirnod treth partneriaeth, ac ni fyddwch yn gallu cwblhau blwch 1. (Dylech esbonio hyn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 30 ar dudalen PS 2.) Disgrifiwch fasnach neu broffesiwn y bartneriaeth, nid enw'r ffyrm, ym mlwch 2.

Dyddiad ymuno neu ymadael

Blychau 3 a 4

Os daethoch yn bartner ar ôl 5 Ebrill 2008, nodwch y dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r bartneriaeth ym mlwch 3. Os peidioch â bod yn bartner cyn 6 Ebrill 2009, nodwch y dyddiad y gwnaethoch ymadael â'r bartneriaeth ym mlwch 4. Gadewch y blychau hyn yn wag os ydych wedi newid o hunangyflogaeth i bartneriaeth neu o bartneriaeth i hunangyflogaeth yn ystod 2008-09.

Eich cyfran chi o elw masnachu neu broffesiynol y bartneriaeth

Cyfnod sail

Blychau 5 a 6

Rydych yn talu treth ar gyfer 2008-09 ar yr elw ac yn hawlio rhyddhad am golledion eich 'cyfnod sail'. Ar ôl y flwyddyn neu ddwy gyntaf fel partner, bydd eich cyfnod sail yr un peth a chyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth, oni bai fod y bartneriaeth yn newid ei dyddiad cyfrifyddu. Er enghraifft, os mai 31 Rhagfyr yw dyddiad cyfrifyddu'r bartneriaeth, a daethoch yn bartner ar 1 Ionawr 2008, eich cyfnod sail ar gyfer 2008-09 yw'r 12 mis o 1 Ionawr 2008 i 31 Rhagfyr 2008.

Fodd bynnag, yn y flwyddyn neu ddwy gyntaf fel partner, neu pan fyddwch yn gadael y bartneriaeth, efallai na fydd eich cyfnod sail yr un peth a chyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth. Mae manylion llawn o'r rheolau a ddefnyddir i gyfrifo eich cyfnod sail yn Nhaflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits*.

Nodwch y dyddiad y dechreuodd eich cyfnod sail yn 2008-09 ym mlwch 6 a'r dyddiad y daeth i ben ym mlwch 6.

Addasiad cyfnod sail

Blychau 7 a 8

Os ydy'ch cyfnod sail yr un peth â chyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth, nodwch eich cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth ym mlwch 7 (nodwch golled drwy roi arwydd minws yn y blwch tywyll nesaf at yr arwydd £) ac anwybyddwch flwch 8.

Mewn unrhyw achos arall bydd angen i chi gyfrifo elw neu golled y cyfnod sail ac yna cymharu hwn gyda'ch cyfran chi o'r elw neu'r golled ar gyfer cyfnod sail y bartneriaeth a ddaeth i ben yn 2008-09, a nodwyd ym mlwch 7. Os nad oes cyfnod sail yn dod i ben yn 2008-09, nodwch eich cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth am y cyfnod 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009 ym mlwch 7. Ym mlwch 8 nodwch yr addasiad sydd ei angen, hynny yw, y swm i'w ychwanegu at neu ei dynnu o'r ffigur ym mlwch 7 er mwyn cyfrifo'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod sail. Mae Taflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits* yn esbonio sut i gyfrifo'r addasiad. Os ydy'r addasiad yn swm y dylid ei ddidynnu o flwch 7, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll nesaf at yr arwydd £ a didynnwch yr addasiad er mwyn cyfrifo cyfanswm eich elw trethadwy.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Enghraifft

Mae partneriaeth yn paratoi ei chyfrifon i 30 Medi bob blwyddyn. Daeth partner A yn bartner ar 1 Gorffennaf 2008. Dyraniad partner A o elw'r bartneriaeth yw:

- y cyfnod hyd at 30 Medi 2008 £15,000
- y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2009 £60,000

Cyfnod sail partner A ar gyfer 2008-09 yw 1 Gorffennaf 2008 i 5 Ebrill 2009 a chyfrifir yr elw fel a ganlyn:

- 1 Gorffennaf 2008 i 30 Medi 2008 £15,000 (nodwch ym mlwch 7)
- 1 Hydref 2008 i 5 Ebrill 2009 ($^{6}/_{12}$ x £60,000) £30,000 (nodwch ym mlwch 8)

Os na allwch gwblhau blwch 8 oherwydd na all y bartneriaeth baratoi'r cyfrifon y byddech wedi eu defnyddio i gyfrifo'r addasiad, cyn y dyddiad ar gyfer dychwelyd eich Ffurflen Dreth, dylech nodi swm dros dro. Rhowch 'X' ym mlwch 20 ar dudalen TR6 eich Ffurflen Dreth a nodwch yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 pa flychau sydd â ffigurau dros dro, pam na allech roi'r ffigurau terfynol, ac amcan o'r dyddiad y disgwyliwch roi'r ffigurau terfynol.

Blwch 9 ***Addasiad ar gyfer newid yn yr arfer cyfrifyddu***

Os ydy'r bartneriaeth yn cynnal proffesiwn ac wedi defnyddio sail 'arian parod' yn flaenorol i gyfrifo'i helw, yna nodwch ef ym mlwch 9.

Os ydy'r bartneriaeth yn cynnal masnach neu broffesiwn ac wedi derbyn incwm o gytundebau am wasanaethau proffesiynol neu wasanaethau eraill, efallai y bydd eich Datganiad Partneriaeth yn dangos addasiad ym mlwch 11A. Os oes addasiad, nodwch ef ym mlwch 9.

Blwch 10 ***Addasiad cyfartalu***

Os ydy'r bartneriaeth:

- yn cynnal busnes ffermio neu arddio masnachol, neu
- yn derbyn incwm drwy werthu neu ganiatáu eraill i atgynhyrchu gweithiau llenyddol neu artistig a grëwyd gan un neu ragor o'r partneriaid

efallai y gallwch hawlio addasiad cyfartalu. Am fwy o wybodaeth darllenwch Daflen Gymorth 224 *Farmers and market gardeners* neu Daflen Gymorth 234 *Averaging for creators of literary or artistic works*.

Ym mlwch 10 nodwch y swm y mae eich elw yn cael ei newid o ganlyniad i hawlio'r addasiad cyfartalu. Rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll os ydy'r addasiad yn gostwng eich elw. Nid yw'r cofnod hwn yn newid swm unrhyw golled i'w nodi ym mlwch 19. Os byddwch yn cyfrifo eich bil treth, rhaid i chi hefyd gynnwys yr addasiad i'ch treth ar gyfer 2007-08 o ganlyniad i'ch cais am gyfartalu, yn y dudalen *Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth*. Mae'r Crynodeb ar gael o **www.hmrc.gov.uk** neu o'r Llinell Gyswllt Gymraeg. Defnyddiwch flwch 13 os ydy'r addasiad yn golygu cynnydd yn y dreth neu flwch 14 os yw'n ostyngiad.

Blwch 11 ***Treth dramor a hawlir fel didyniad***

Defnyddiwch flwch 11 i hawlio credyd ar gyfer didyniadau treth dramor ond dim ond os nad ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor yn y tudalennau *Tramor*.

Blychau 12 a 13 ***Elw gorgyffwrdd a rhyddhad gorgyffwrdd***

Os ydy dyddiad cyfrifyddu'r bartneriaeth yn ddyddiad heblaw am 5 Ebrill, gallai gorgyffwrdd yn eich cyfnodau sail ddigwydd:

- yn y tair blynedd gyntaf ar ôl i chi ddod yn bartner – gweler y nodiadau ar flychau 5 a 6, neu
- mewn blwyddyn pan fo newid yn nyddiad cyfrifyddu'r bartneriaeth.

Gan eich bod yn cael eich trethu ar eich cyfran chi o elw'r bartneriaeth ar gyfer cyfnod sail benodol, byddai gorgyffyrddiadau yn eich cyfnodau sail yn golygu y gallech gael eich trethu'n fwy nag unwaith ar yr un elw. Er mwyn osgoi hyn, efallai y gallech hawlio rhyddhad gorgyffwrdd ar gyfer yr elw (yr elw gorgyffwrdd) mewn unrhyw gyfnod gorgyffwrdd.

Gallai ryddhad gorgyffwrdd fod yn ddyledus ar gyfer 2008-09:

- os peidioch â bod yn bartner yn 2008-09, neu
- os daeth busnes y bartneriaeth i ben yn 2008-09, neu
- os newidiodd y bartneriaeth ei dyddiad cyfrifyddu yn 2008-09 ac mae eich cyfnod sail, fel y mae'n ymddangos ym mlychau 5 a 6, yn fwy na 12 mis.

Os felly, defnyddiwch Daflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits* i gyfrifo elw gorgyffwrdd a sut i hawlio rhyddhad gorgyffwrdd. Ym mlwch 12 nodwch swm unrhyw ryddhad gorgyffwrdd a ddefnyddiwyd yn 2008-09, ac ym mlwch 13 nodwch swm unrhyw elw gorgyffwrdd nas defnyddiwyd ac a gariwyd ymlaen i 2009-10.

Blwch 14 ***Elw wedi'i addasu ar gyfer 2008-09***

Defnyddiwch y Daflen Waith ar dudalen SPN 5 i gyfrifo'r elw wedi'i addasu ar gyfer 2008-09.

Blwch 15 ***Colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach a wrthbwyswyd yn erbyn elw'r flwyddyn hon***

Gallwch ddidynnu unrhyw golledion ar gyfer 2007-08 neu flynyddoedd cynharach o swm yr elw wedi'i addasu ym mlwch 14. Byddwch wedi hawlio'r colledion er mwyn eu cario ymlaen a'u gosod yn erbyn elw diweddarach o'r un bartneriaeth. Yr uchafswm y gallwch nodi ym mlwch 15 yw ffigur yr elw wedi'i addasu ym mlwch 14.

Blwch 17 ***Unrhyw incwm arall y busnes nas cynhwyswyd yng nghyfrifon y bartneriaeth***

Ym mlwch 17 nodwch unrhyw symiau nas cynhwyswyd yng nghyfrifon y bartneriaeth ond y mae eu hangen arnoch i gyfrifo eich elw trethadwy. Er enghraifft, unrhyw Lwfans Mentro (weithiau gelwir hwn yn Lwfans Dechrau Busnes) a gawsoch yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009. Fel arfer bydd hwn wedi ei dalu i chi yn hytrach na'r bartneriaeth ac felly ni fydd wedi ei gynnwys yn Ffurflen Dreth y Bartneriaeth.

Eich cyfran chi o golledion masnachu neu broffesiynol y bartneriaeth

Os gwnaeth y bartneriaeth golled ar gyfer 2008-09, efallai y gallech wneud cais am ryddhad treth ar gyfer eich cyfran chi o'r golled honno. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â gwneud cais am ryddhad am golledion yn Nhaflen Gymorth 227 *Losses* ac mae'n cynnwys Taflen Waith i'ch helpu i gadw trefn ar eich colledion.

Terfynau amser

Rhaid cyflwyno rhai ceisiadau erbyn 31 Ionawr 2011. Dylech sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno o fewn y terfynau amser penodedig. Ni allwn fel arfer dderbyn ceisiadau hwyr.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 19 ***Colled wedi'i haddasu ar gyfer 2008-09***

Defnyddiwch y Daflen Waith isod i gyfrifo'r golled wedi'i haddasu ar gyfer 2008-09.

Taflen Waith ar gyfer elw neu golled wedi'u haddasu

Rhowch arwydd minws (-) cyn unrhyw golled neu rif negyddol

Dechreuwch gyda'ch cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth *blwch 7* £

Ychwanegwch
Addasiad positif ar gyfer y cyfnod sail *blwch 8* £

Addasiad ar gyfer newid arfer cyfrifyddu *blwch 9* £

Cyfanswm **A** £

Llai
Addasiad negyddol ar gyfer y cyfnod sail *blwch 8* £

Treth dramor a hawliwyd fel didyniad *blwch 11* £

Rhyddhad gorgyffwrdd a ddefnyddiwyd y flwyddyn hon *blwch 12* £ **B** £

Cyfanswm *blwch A llai blwch B* **C** £

Os ydy'r swm ym mlwch C yn bositif (elw)

Ychwanegwch
Addasiad cyfartalu positif *blwch 10* **D** £

Neu llai addasiad cyfartalu negyddol *blwch 10* **E** £

Elw wedi'i addasu *- blwch C plws blwch D neu flwch C llai blwch E* **F** £

Llai
Colledion a ddygwyd ymlaen blwch 15 – hyd at y swm yn mlwch F £

Cyfanswm £

Ychwanegwch
Unrhyw incwm arall y busnes *blwch 17* £

Eich cyfran chi o gyfanswm yr elw trethadwy *copïwch i flwch 18* £

Neu os ydy'r swm ym mlwch C yn negyddol (colled)

Copïwch y swm ym mlwch C (y golled wedi'i haddasu) i flwch 19 ond nodwch ef fel ffigur positif (peidiwch â chynnwys yr arwydd minws ym mlwch 19).

Os ydych wedi nodi addasiad cyfartalu positif ym mlwch 10, copïwch y swm ym mlwch 10 i flwch 14, yn ogystal â nodi'r addasiad ym mlwch 19.

Blwch 20 ***Colled o'r flwyddyn dreth hon a wrthbwyswyd yn erbyn incwm arall ar gyfer 2008-09***

Gallwch hawlio rhyddhad ar gyfer y golled yn 2008-09 drwy leihau eich incwm trethadwy arall ar gyfer 2008-09. Nodwch y swm rydych yn ei hawlio er mwyn ei wrthbwyso ym mlwch 20. Fel arfer y golled a hawliwch ym mlwch 20 fydd y golled lawn, ond ni ellwch ostwng cyfanswm eich incwm ar ôl tynnu didyniadau, i ffigur sy'n is na sero. Felly, ni ddylai'r ffigur a rowch ym mlwch 20 fod yn uwch na chyfanswm

eich incwm, llai didyniadau. Os ydych eisoes wedi gwneud cais am ryddhad am y golled, dylech gynnwys y golled o hyd ym mlwch 20, a darparu manylion yn y blwch 'unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich Ffurflen Dreth. Os dymunwch gallwch wneud cais am unrhyw golled sy'n weddill, neu os nad oes gennych incwm trethadwy, y golled gyfan, drwy leihau eich ennill cyfalaf ar gyfer 2008-09. Nodwch y golled rydych yn gwneud cais ar ei chyfer ym mlwch 14 ar dudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*.

Blwch 21 ***Colledion i'w cario'n ôl i flynyddoedd blaenorol a'u gosod yn erbyn incwm (neu enillion cyfalaf)***

Os ydych am hawlio rhyddhad ar gyfer colled 2008-09 drwy ei osod yn erbyn incwm mewn blwyddyn neu flynyddoedd cynharach, nodwch swm y golled i'w chario'n ôl ym mlwch 21. Os ydych eisoes wedi gwneud cais i'r rhyddhad gael ei gyfrif yn y ffordd hon, dylech gynnwys y golled ym mlwch 21 o hyd a rhoi manylion y golled i'w chario'n ôl nawr neu eisoes wedi ei chario'n ôl yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR6 eich ffurflen Dreth.

Blwch 22 ***Cyfanswm y golled i'w chario ymlaen ar ôl gwneud pob gwrthbwysiad arall – gan gynnwys colledion nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen***

Os ydych am hawlio rhyddhad ar gyfer eich colled drwy ei dwyn ymlaen i'w gosod yn erbyn elw'r dyfodol, nodwch swm y golled nas defnyddiwyd ac sydd i'w chario ymlaen ynghyd ag unrhyw golled a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach, ym mlwch 22.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4

Rhaid i bob partner dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4 oni bai eu bod wedi eu heithrio neu eu gohirio. Cyfrifir y cyfraniadau ar ganran yr elw trethadwy sy'n uwch na £5,435 am y flwyddyn dreth 2008-09.

Blwch 23 ***Os ydych wedi eich eithrio rhag talu CYG Dosbarth 4***

Byddwch wedi eich eithrio rhag talu CYG Dosbarth 4:

- os oeddech yn ddyn 65 oed neu'n hŷn neu'n wraig 60 oed neu'n hŷn ar 6 Ebrill 2008, neu
- os oeddech o dan 16 oed ar 6 Ebrill 2008 ac mae Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (Swyddfa NICO) wedi caniatáu 'eithriad' i chi, neu
- os nad oeddech yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod 2008-09 (os nad ydych yn sicr p'un a yw hwn yn gymwys i chi, yna cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth), neu
- os oeddech yn bartner segur yn ystod 2008-09 – hynny yw, ni fuoch yn gweithredu mewn unrhyw fodd i gynnal y busnes heblaw cyflwyno cyfalaf a derbyn eich cyfran o'r elw.

Rhowch 'X' ym mlwch 23 os bydd un o'r amodau hyn yn berthnasol. Peidiwch â chwblhau blwch 24 (gohiriad CYG Dosbarth 4) neu flwch 25 (addasiad i elw at ddibenion CYG Dosbarth 4).

Blwch 24 ***Os rhoddwyd tystysgrif gohirio CYG Dosbarth 4 ar gyfer 2008-09***

Os ydych yn gyflogedig yn ogystal ag yn hunangyflogedig, efallai y bydd Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cytuno y gellir oedi rhag talu neu ohirio rhai o'ch CYG Dosbarth 4 tan y gellir pennu eich cyfraniadau llawn. Byddwch yn derbyn tystysgrif gohirio (ffurflen CA2703) unwaith y bydd eich cais wedi ei gytuno. Dylech nodi 'X' ym mlwch 24 dim ond os cawsoch dystysgrif gohirio. Os ydych am wneud cais i ohirio talu cyfraniadau cysylltwch â ni.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 25 ***Addasiad i elw sy'n agored i CYG Dosbarth 4***

Mae addasiadau sy'n gostwng swm y CYG Dosbarth 4 sy'n daladwy: addasiadau sail arian parod, addasiadau ar gyfer newidiadau mewn arfer cyfrifyddu, rhai colledion penodol o flynyddoedd cynharach, ac enillion fel cyflogai a gynhwyswyd yn eich elw. Mae fwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 220 *More than one business*.

Eich cyfran chi o log a drethwyd ac ati'r bartneriaeth

Rhaid i chi gynnwys eich cyfran chi o unrhyw incwm o fuddsoddiadau'r bartneriaeth yn y tudalennau *Partneriaeth*. Hynny yw, incwm heblaw incwm masnachu neu broffesiynol, fel y'i dangosir ar Ddatganiad y Bartneriaeth.

Os mai dim ond llog oedd eich cyfran chi o incwm o fuddsoddiadau (neu dderbyniadau ariannu amgen) gyda threth wedi ei didynnu gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, gallwch ddefnyddio'r tudalennau *Partneriaeth (byr)*. Fel arall gofynnwch y Llinell Gyswllt Gymraeg am y tudalennau *Partneriaeth (llawn)* (a'r *nodiadau*) a chwblhewch y rheiny yn lle.

Ym mlwch 26 nodwch eich cyfran chi o log (a derbyniadau ariannu amgen) o fanc neu gymdeithas adeiladu, ar ôl didynnu treth, a gawsoch yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009. Gwelir hwn ym mlwch 22 ar eich Datganiad Partneriaeth.

Eich cyfran chi o dreth y bartneriaeth a dalwyd a'r didyniadau

Blwch 27 ***Eich cyfran chi o Dreth Incwm a ddidynnwyd o incwm y bartneriaeth***

Ym mlwch 27 nodwch eich cyfran chi o'r dreth a ddidynnwyd o unrhyw log o fanc neu gymdeithas adeiladu ac ati yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 o flwch 25 ar eich Datganiad Partneriaeth.

Blwch 28 ***Eich cyfran chi o ddidyniadau CIS a wnaed gan gontractwyr***

Os oedd y bartneriaeth yn isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu, efallai ei bod wedi derbyn taliadau o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu. Ym mlwch 28 nodwch eich cyfran chi o unrhyw ddidyniadau a wnaed gan gontractwyr i gyfrif am y dreth a ddidynnwyd o daliadau a wnaed i'r bartneriaeth yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009. Gwelir hyn ym mlwch 24 ar eich Datganiad Partneriaeth.

Blwch 29 ***Eich cyfran chi o unrhyw dreth a ddidynnwyd o incwm masnachu (nid didyniadau contractwyr)***

Ym mlwch 29 nodwch eich cyfran chi o unrhyw dreth a ddidynnwyd o incwm masnachu, er enghraifft breindaliadau, o flwch 24A ar eich Datganiad Partneriaeth.

Newid rhwng hunangyflogaeth a phartneriaeth

Cam 1

Pennwch eich cyfnod sail ar gyfer y flwyddyn dreth 2008-09 (gan ddefnyddio'r nodiadau ar gyfer blwch 5 a 6 ar dudalen SPN2).

Cam 2

Peidiwch â rhoi dyddiad newid o hunangyflogaeth i bartneriaeth, neu o bartneriaeth i hunangyflogaeth, yn naill ai blwch 3 neu flwch 4 y tudalennau *Partneriaeth*.

Cam 3

Gwiriwch p'un a yw'r wybodaeth yn y cyfrifon ar gyfer unrhyw gyfnod cyfrifyddu sy'n cyfeirio at eich cyfnod sail (hynny yw, os bydd unrhyw ran o'r cyfnod cyfrifyddu yn disgyn o fewn y cyfnod sail) wedi ei roi yn y Ffurflen Dreth Partneriaeth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Cam 4

Os yw wedi ei nodi, dylech gwblhau'r tudalennau *Partneriaeth* a chyfrifo'r elw trethadwy neu'r golled ganiataol ar gyfer y flwyddyn hon. Caiff hwn ei seilio ar:

- eich cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth a ddangosir yn Natganiad y Bartneriaeth ynghyd ag
- elw neu golled unrhyw gyfnod cyfrifyddu sy'n effeithio ar eich cyfnod sail yn, ac yn ystod y cyfnod ni chafodd y busnes ei gynnal gan y bartneriaeth yr ydych wedi nodi manylion ym mlychau 8 i 31 yn y tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)*, neu flychau 14 i 64 ar y tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)*.

Cam 5

Fel arall, nodwch wybodaeth am y cyfrifon ym mlychau 8 i 31 yn y tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)* (neu flychau 14 i 64 ac 82 i 98 yn y tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)*). Cwblhewch weddill y blychau ar y tudalennau hynny i gyfrifo eich elw trethadwy neu eich colled ganiataol ar gyfer y flwyddyn hon. Peidiwch â chwblhau'r tudalennau *Partneriaeth*.

Gwybodaeth arall

Cymhorthdal am ddifa anifeiliaid fferm

Os ydy'ch partneriaeth wedi dioddef difa anifeiliaid fferm gorfodol sydd heb eu cwmpasu gan 'ddewis sail heidiol', efallai y byddwch am wneud cais o dan Gonsesiwn All Statudol B11:

- i ddidynnu eich cyfran chi o'r elw sy'n codi o'r iawndal o'ch cyfran chi o'r elw a drethwyd am y cyfnod pan gafodd yr anifeiliaid eu difa, ac
- i daenu'r swm a ddidynnwyd dros y tair blynedd ddilynol (neu'r cyfnod tan i chi orffen fel partner os oedd hynny'n fyrrach).

Cadwch nodyn er mwyn sicrhau nad ydych yn anghofio am yr addasiadau hyn a dylid eu cynnwys ym mlwch 8.

Os ydy'r addasiadau'n gostwng yr elw rhowch arwydd minws (–) yn y blwch tywyll, nesaf at yr arwydd £. Os oes gennych addasiad arall i'w roi ym mlwch 8, yna ychwanegwch y ddau at ei gilydd a rhoi'r canlyniad ym mlwch 8. Defnyddiwch y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 30 i esbonio unrhyw gofnod ym mlwch 8.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â ESCB11 gofynnwch y Llinell Gyswllt Gymraeg am Daflen Gymorth 224 *Farmer and market gardeners*.

Deddfwriaeth cyfryngwyr – IR35

Os oedd y bartneriaeth yn darparu eich gwasanaethau i gleientiaid mewn amgylchiadau lle y buasech yn gyflogai petaech yn gweithio i'r cleient yn uniongyrchol ac nid trwy'r bartneriaeth, yna gallai'r rheolau a gyflwynwyd o 6 Ebrill 2003 ynglŷn â threth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol fod yn berthnasol. Gweler yr adran 'IR35 – the provision of personal services through a partnership' ar Daflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits*. Mae'n dweud wrthych ba addasiadau y dylech wneud i'ch incwm trethadwy a lle y dylai'r rhain gael eu nodi ar eich Ffurflen Dreth.